AMGUEDDFA CYMRU

# Gweithdy Celtaidd

**Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld yn ein Gweithdy Celtaidd Rhithwir yn fuan. Er mwyn i'ch disgyblion gael y gorau o'r sesiwn, dyma rai syniadau ar gyfer trafodaeth a gweithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw:**


## Bryn Eryr - Ymweliad Rhithwir:

'Da ni wedi creu ymweliad rhithwir i Bryn Eryr - ffermdy Oes yr Haearn Sain Ffagan. Plis gwyliwch y ffilm gyda'ch dosbarth cyn eich sesiwn digidol.




## Archwilio Bryn Eryr 360°

Cliciwch ar y dolen i archwilio delwedd 360° o Bryn Eryr - cymerwch daith rithiol o'r adeilad.




## Lawrlwytho e-lyfr Bryn Eryr

Defnyddiwch yr e-lyfrau Cymru yn Oes yr Haearn i ddarganfod mwy am fywyd yng Nghymru 2000 o flynyddoedd yn ôl.



# Gweithdy Celtaidd

## Trafodaeth dosbarth:

Ar ôl gwylio'r ffilm: Beth arall ydych chi eisiau ei wybod? Meddyliwch am gwestiynau i ofyn i'r hwylusydd yn ystod eich Gweithdy Celtaidd. Sut oedd bywyd yn wahanol yng Nghymru 2000 o flynyddoedd yn ôl? Hoffech chi fyw ym Mryn Eryr? Sut brofiad fyddai bod yn blentyn yn Oes yr Haearn?

Edrychwch o amgylch eich tŷ. Sut mae eich tŷ yn cymharu â Bryn Eryr? Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol?

## Ar ôl eich Gweithdy Celtaidd...

Ysgrifennwch gofnod dyddiadur yn dychmygu eich bod yn Gelt yng Nghymru 2000 o flynyddoedd yn ôl. Dychmygwch eich bod yn adeiladu tŷ crwn - pa ddeunyddiau ydych am eu defnyddio? Ble hoffech adeiladu eich tŷ crwn?

Beth am adeiladu Bryn Eryr bach gan ddefnyddio deunyddiau gwahanol?

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/564/Cymru-Oes-yr-Haearn-Adnoddau-CA2-Bywyd-Bob-Dydd-y-Celtiaid/